**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 12 Mehefin 2019**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Dim. |
| **2** | PENODI CADEIRYDD | ***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Hugh Irving yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.* |
| **3** | PENODI IS-GADEIRYDD | ***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Brian Jones yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.* |
| **4** | DATGAN CYSYLLTIAD | Dim. |
| **5** | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Dim. |
| **6** | COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2019 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.* |
| **7** | BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU | ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y mae yn atodiad i'r adroddiad.* |
| **8** | DIWEDDARIAD AR Y DATGANIAD POLISI YNGHYLCH ADDASRWYDD YMGEISWYR A THRWYDDEDAU YN Y MASNACHAU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT | ***PENDERFYNWYD –***<br><br>*(a) Mabwysiadu'r Datganiad Polisi ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau ym musnesau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat (sydd ynghlwm wrth Atodiad A), i'w weithredu ar 1 Gorffennaf 2019;*<br><br>*(b) Awdurdodi swyddogion i wneud y newidiadau a nodir yn 4.8 uchod, fel bod y Datganiad Polisi ar Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwyddedau ym Musnesau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yn gyson â'r ddogfen ganllawiau genedlaethol; a*<br><br>*(c) Os derbynnir unrhyw gwyn neu ymholiad gan ddalwyr trwydded ynglŷn â'r Datganiad* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *Polisi, bod swyddogion yn cael eu hawdurdodi, wedi ymgynghori â'r Cadeirydd, i ymateb gan gadarnhau na fydd y mater yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Trwyddedu oherwydd bod y cyfle i ymateb i'r ddogfen bolisi wedi dod i ben.* |
| **9** | CAIS AM DRWYDDED AR GYFER CERBYD HURIO PREIFAT | ***PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais am Drwydded Cerbyd Hurio Preifat yn amodol ar yr amodau ychwanegol a nodwyd yn Atodiad 2 yr adroddiad.* |
| **10** | CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 533519 | ***PENDERFYNWYD** cymeradwyo cais Ymgeisydd Rhif 533519 am drwydded gyrru cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat.* |